# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 7 Tachwedd 2017

Amser: 08.30 - 09.03

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC (Cadeirydd)<br>Paul Davies AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Gareth Bennett AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad<br>Rhuanedd Richards, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Estynnodd y Llywydd groeso i Julie James, y Gweinidog â chyfrifoldeb dros fusnes y Llywodraeth, a mynegodd ei diolch ar ran y Pwyllgor Busnes i Jane Hutt am ei chyfraniad enfawr dros nifer o flynyddoedd fel Rheolwr Busnes ac Arweinydd y Tŷ.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar y cofnodion ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3 Trefn busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

- Byddai'r Cyfnod Pleidleisio ar ôl yr eitem olaf o fusnes.

**Dydd Mercher**

- Cytunodd y Rheolwyr Busnes y byddai'r Cyfnod Pleidleisio yn cael ei gynnal cyn y Ddadl Fer.

### 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

### 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 15 Tachwedd 2017 –**

- Cynnig i gymeradwyo Cyllideb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2018-19 (30 munud)

**Dydd Mercher 29 Tachwedd 2017 –**

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)

## 4 Y Cyfarfod Llawn

### 4.1 Adolygiad o'r diwygiadau i'r Cyfarfod Llawn

*Adolygiad o'r diwygiadau i'r Cyfarfod Llawn*

Trafododd y Rheolwyr Busnes sut y mae diwygiadau diweddar i drafodion Cyfarfodydd Llawn yn gweithredu, a chytunodd i adolygu eu gweithrediad fel a ganlyn:

- Ailenwi 'Dadleuon gan Aelodau Unigol' yn 'Dadleuon gan Aelodau';
- Cynigion Deddfwriaethol Aelodau - roedd Rheolwyr Busnes yn fodlon ar y cyfan ar y modd y mae Cynigion Deddfwriaethol Aelodau yn gweithredu, ond gofynnodd Julie James i'r Rheolwyr Busnes barhau i gadw golwg arnynt a dychwelyd at y mater yn y flwyddyn newydd;
- Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru - Gofynnodd y Rheolwyr Busnes i'r Ysgrifenyddiaeth ddod â chynigion gerbron sy'n caniatáu ar gyfer digwyddiad yn dilyn patrwm penodedig, gan barchu'r angen am bleidlais, ac sydd hefyd yn caniatáu i Aelodau'r meinciau cefn allu gwneud cyfraniad sylweddol;
- Datganiad ar y Gyllideb Ddrafft - cyflwynir Rheolau Sefydlog Drafft i wneud y fformat a gafodd ei dreialu yn un parhaol.

## 5 Amserlen y Cynulliad

### 5.1 Papur i'w nodi - Amserlen Cwestiynau Llafar y Cynulliad

Nododd y Rheolwyr Busnes y papur.

## Unrhyw fater arall

*Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol*

Nododd y Pwyllgor fod Huw Irranca-Davies wedi ymddiswyddo fel cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. Penderfyniad mwyafrif y Rheolwyr Busnes oedd y dylai cadeiryddiaeth y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

barhau i gael ei dyrannu i'r Grŵp Llafur. Gwrthwynebodd Paul Davies y penderfyniad, gan nodi'r anghydbwysedd parhaus yn y modd y mae'r Cadeiryddion wedi'u dyrannu ymhlith grwpiau'r pleidiau.  Gwahoddir enwebiadau ar ddechrau'r Cyfarfod Llawn ddydd Mercher, gyda balot yn digwydd rhwng 2 a 5pm os oes angen. Byddai'r canlyniad yn cael ei gyhoeddi cyn y cyfnod pleidleisio.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes hefyd y dylai'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ddychwelyd i fod yn bwyllgor o bedwar Aelod wedi i Dafydd Elis-Thomas ymddiswyddo o'r pwyllgor.

*Trefn y seddi yn y Siambr*

Bydd cynllun seddi diwygiedig yn cael ei ddosbarthu cyn y Cyfarfod Llawn heddiw.

## Ailgynullwyd y Pwyllgor Busnes am 2.30pm i ystyried trefniadau busnes y dyfodol agos iawn yn dilyn marwolaeth sydyn Carl Sargeant AC

*Cyfarfod Llawn heddiw* - roedd y Llywydd eisoes wedi cyhoeddi bod Cyfarfod Llawn heddiw wedi'i ganslo.

*Cyfarfod Llawn yfory* - cytunodd y Rheolwyr Busnes y dylid canslo'r Cyfarfod Llawn yfory hefyd.

*Pwyllgorau yr wythnos hon* - cytunodd y Rheolwyr Busnes mai Cadeiryddion sy'n gyfrifol am eu pwyllgorau, ond y byddai'r Pwyllgor Busnes yn eu cynghori i beidio â chwrdd yr wythnos hon. Nododd y Rheolwyr Busnes fod rhai cadeiryddion eisoes wedi nodi y byddent yn canslo eu cyfarfodydd.

*Y Swyddfa Gyflwyno* - cytunodd y Rheolwyr Busnes y bydd y Swyddfa Gyflwyno yn parhau ar agor at ddibenion cyflwyno a gosod busnes ar gyfer yr wythnos nesaf.

*Cyfarfod Llawn yr wythnos nesaf* - cytunodd y Rheolwyr Busnes y bydd busnes yn ailddechrau'r wythnos nesaf.  Bydd Cwestiynau Llafar y Cynulliad a drefnwyd ar gyfer heddiw ac yfory yn cael eu gofyn yng Nghyfarfodydd Llawn yr wythnos nesaf, ac

amserlen Cwestiynau Llafar y Cynulliad yn cael ei diwygio yn unol â hynny. Dywedodd Arweinydd y Tŷ wrth y Pwyllgor y byddai'r llywodraeth yn dymuno symud ei busnes o'r wythnos hon i'r nesaf, gan gadw rhai eitemau hanfodol o fusnes a drefnwyd ar gyfer yr wythnos nesaf. Byddai dadl Cyfnod 3 ar y Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol yn cael ei gohirio. Cytunodd y Rheolwyr Busnes i fabwysiadu agwedd debyg tuag at fusnes y Cynulliad, a gofynnodd i'r Ysgrifenyddiaeth ddosbarthu agenda ddiwygiedig i'w chadarnhau.

***Aildrefnu busnes*** - byddai'r Pwyllgor yn ystyried aildrefnu busnes dros y tymor canolig yn ei gyfarfod ddydd Mawrth.

</AI12><TRAILER_SECTION></TRAILER_SECTION><LAYOUT_SECTION>